Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Gorffennaf 2009 — Rhifyn 13

Yn y Rhifyn Hwn:

•'Ride On' ym Mhowys • Anafedigion ar Ffyrdd Cymru, 2008 • 'Tail Guardian' • Gwefan Dadansoddi Diogelwch ar y Ffyrdd • Degawd o Weithredu • Ceir Trydan na wnaiff Wrthdaro Byth • Gyrwyr Ifanc wrth eu gwaith • Siop RoSPA ar y We • Seddau Ceir sy'n Wynebu tuag yn ôl sydd Fwyaf Diogel i Blant dan 4 oed • Adroddiad Arbennig y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth

Cynllun Asesu 'Ride On' i Feicwyr Modur ym Mhowys

Drwy gydol yr haf, fe anogwyd beicwyr modur ym Mhowys i gael asesu eu sgiliau er mwyn iddynt deithio'n fwy diogel yn y sir. Mae Uned Diogelwch ar y Ffyrdd Cyngor Sir Powys wedi datblygu cynllun asesu o'r enw 'Ride On' – y cyntaf o'i fath yng Nghymru – diolch i gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r cwrs yn cynnwys sesiwn o awr a hanner o theori ac yna daith ymarferol, sy'n para awr a hanner, gyda swyddogion o Heddlu Dyfed Powys.

Meddai'r Cynghorydd Gwilym Evans, yr aelod o'r Bwrdd sy'n gyfrifol am Ddiogelwch ar y Ffyrdd, "Beicwyr modur ydy defnyddwyr mwyaf bregus y ffyrdd ym Mhowys. Gennym ni y mae'r nifer uchaf o ddamweiniau angheuol sy'n cynnwys beicwyr modur o'u cymharu ag unrhyw sir arall yng Nghymru. Mae arnon ni eisiau hybu beicio mwy diogel a gostwng nifer y beicwyr modur sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Powys. Bydd yr asesiad hwn, a mentrau eraill, yn ein helpu i sicrhau hynny."

Sarah Meddai Sarah Morris, Uwch-Swyddog Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor: "Fe aseson ni dros 50 o feicwyr modur yn ystod y cynllun peilot yn 2008 a chael ymateb hynod gadarnhaol gan y rhai wnaeth gymryd rhan ynddo. Byddwn i'n annog unrhyw feiciwr modur i fanteisio ar y cynllun yma - y cynta o'i fath yng Nghymru."

Os hoffech chi gael gwybod rhagor am y cynllun, e-bostiwch peter.wright@powys.gov.uk

Anafedigion ar Ffyrdd Cymru, 2008

Yn unol â'r trefniadau a gymeradwywyd gan Awdurdod Ystadegau y DU, cafodd yr Ystadegau Cenedlaethol am Anafedigion ar y Ffyrdd – ystadegau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru – eu rhyddhau ar 25 Mehefin 2009.

Mae'r Ystadegau am Anafedigion ar Ffyrdd Cymru yn cynnwys data am y cyfnod hyd at ddiwedd Rhagfyr 2008. Mae'r cyhoeddiad yn diweddaru'r ystadegau a ryddhawyd ar 8 Gorffennaf 2008. **Y Cyhoeddiad Statistical Release 96/2009 (PDF 192kB)**

Dyma bwyntiau allweddol y cyhoeddiad diweddaraf:

- **Yn ystod 2008 fe gofnododd yr heddlu yng Nghymru 7,783 o ddamweiniau ar y ffyrdd lle cafodd pobl eu hanafu, sef 556 (7 y cant) yn llai nag yn 2007.**

- **Canlyniad y damweiniau hynny oedd lladd neu anafu 11,185 o bobl, sef 1,084 (9 y cant) yn llai nag yn 2007. Hynny yw:**
  - Lladdwyd 142 o bobl ar ffyrdd Cymru yn 2008, 19 (12 y cant) yn llai nag yn 2007.
  - Anafwyd 1,253 o bobl yn ddifrifol yn 2008, 15 (1 y cant) yn fwy nag yn 2007.
  - Cafodd 9,790 o bobl fân anafiadau, gostyngiad o 1,080 (10 y cant) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

TailGuardian

Math unigryw o arwydd i gerbydau yw TailGuardian ac mae'n defnyddio hidlyddion i beri nad oes modd gweld neges fod yn anweladwy y tu hwnt i bellter penodedig. Mae'r dechnoleg yn fodd i yrwyr gael cyngor dim ond pan fydd ei angen.

Gyrru'n rhy agos i'r cerbyd o'ch blaen yw un o brif achosion gwrthdrawiadau ar y ffyrdd, ac un o'r achosion yw diffyg gwybodaeth gyrwyr o bellter stopio'u cerbyd ar wahanol gyflymderau a'u hanallu i farnu maint y pellter hwnnw hyd yn oed os cânt wybod faint yw ef.

Bydd TailGuardian yn ceisio lleihau'r risg hwnnw drwy roi gwybod i gerbydau sydd y tu ôl i chi eu bod yn rhy agos. Mae'n cyfrannu at ailaddysgu gyrwyr am bellterau gyrru diogel ac yn eu hannog i'w parchu.

Lansiwyd TailGuardian yn ddiweddar, a dyma'r unig gynnyrch o'r fath sydd wedi'i gynllunio i reoli'r risg i gerbydau ac i feithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd o bellteroedd dilyn diogel mewn traffig.

Gwefan Dadansoddi Diogelwch ar y Ffyrdd

Ym mis Medi 2009 fe lansir gwefan newydd am ddiogelwch ar y ffyrdd yr un pryd â Road Casualties Great Britain. Fe'i hanelir at ymarferwyr diogelwch ar y ffyrdd a bydd yn darparu dadansoddiad integredig o wrthdrawiadau a ffigurau cymdeithasol a demograffig. Bydd yn hwyluso penderfynu ynghylch strategaethau ymyrryd i ostwng nifer yr anafedigion ac i gynyddu effeithlonrwydd.

Nodau'r wefan yw:

- Darparu ffordd hygyrch ac effeithiol i ymarferwyr diogelwch ar y ffyrdd ddefnyddio technegau dadansoddi'r farchnad wrth iddynt gynllunio a chynnal ymgyrchoedd
- Annog y gymuned broffesiynol o swyddogion diogelwch ar y ffyrdd i ddefnyddio rhagor ar fethodolegau gwerthfawr dadansoddi'r farchnad.
- Hwyluso cyfnewid gwybodaeth, arferion da a thechnegau effeithiol wrth gynllunio a chynnal ymgyrchoedd ar draws amrywiaeth mawr o asiantaethau perthnasol

Ewch i www.roadsafetyanalysis.org

Degawd o Weithredu

Mae ymgyrch ryngwladol ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, a lansiwyd yn Rhufain, yn galw ar lywodraethau i wneud rhagor i rwystro damweiniau ar ffyrdd ledled y byd. Yn ôl adroddiad newydd gan y Comiwn dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd ledled y Byd, rhaid i lywodraeth pob gwlad ymladd yr argyfwng sy'n tyfu gyflymaf ym maes iechyd y cyhoedd, a hynny drwy ymrwymo i 'Ddegawd o Weithredu' ar ddiogelwch ar y ffyrdd a fyddai'n arbed 5 miliwn o fywydau a 50 miliwn o anafiadau difrifol.

Dywed yr Ymgyrch i Wneud Ffyrdd yn Ddiogel, sef grŵp o sefydliadau moduro ac iechyd, fod bron i ddwy filiwn o bobl yn marw bob blwyddyn ar ffyrdd y byd ac mai damweiniau ar y ffyrdd, yn y gwledydd datblygol, yw prif achos marwolaethau y gellid eu rhwystro – mwy na malaria.
Os na wneir unrhyw beth, damweiniau traffig fydd prif achos marwolaethau cyn-pryd ymysg plant 5-14 oed ymhen pum mlynedd.
Dywed yr Ymgyrch i Wneud Ffyrdd yn Ddiogel y gellid osgoi pum miliwn o farwolaethau dros y 10 mlynedd nesaf petai llywodraethau'n bwrw ati i gyflwyno polisïau mwy effeithiol.

Bydd y Cenhedloedd Unedig yn cynnal eu cynhadledd gyntaf ar ddiogelwch ar y ffyrdd yn ddiweddarach eleni.

Darllenwch yr adroddiad yma

Ceir Trydan na wnaiff Wrthdaro Byth

Os gwireddir gobeithion penaethiaid cwmni ceir yn yr Unol Daleithiau, gallai tagfeydd traffig, damweiniau ar y ffyrdd a cherbydau pedair-olwyn berthyn i niwl y gorffennol cyn hir.

Mae General Motors yn cydweithio â Segway, cynhyrchydd sgwteri trydan, i ddatblygu cerbyd trydan sydd â dwy olwyn a dwy sedd. Y bwriad yw iddo gael ei ddefnyddio mewn dinasoedd ar hyd a lled y byd fel dewis diogel, rhad a glân yn lle'r ceir traddodiadol.

Byddai prosiect Personal Urban Mobility and Accessibility, neu PUMA, hefyd yn cynnwys creu rhwydwaith cyfathrebu anferth a fyddai'n fodd i gerbydau ryngweithio â'i gilydd, i reoli llif y traffig ac i rwystro gwrthdrawiadau.

Batri lithiwm-ion sy'n gyrru'r prototeip, a thechnoleg Segway sy'n cydbwyso'r ddwy olwyn. Defnyddir moduron trydan deuol ynddo. Y bwriad yw iddo allu teithio hyd at 35 m.y.a. a rhedeg am 35 milltir ar un gwefriad.

Yn ddelfrydol, byddai'r cerbydau'n rhan o rwydwaith cyfathrebu a allai ddefnyddio technoleg GPS i'w gyrru eu hunain.

Gan y byddai'r cerbydau'n osgoi rhwystrau fel cerddwyr a cheir eraill, ni fyddent byth mewn gwrthdrawiad.

Er y gall fod rhaid aros peth amser eto cyn gweld gweithredu'r math hwnnw o isadeiledd cyfathrebu mewn llawer dinas, mae'r cwmni'n chwilio am rywle fel campws coleg lle gallai'r cerbydau gael eu defnyddio, a thrwy hynny sicrhau troedle yn y farchnad.

Gyrwyr Ifanc wrth eu gwaith

RoSPA Mae RoSPA wedi cyhoeddi adroddiad newydd, 'Young Drivers at Work', a ariannwyd gan yr Adran Drafnidiaeth. Ynddo fe astudir y risgiau sy'n wynebu ac yn cael eu creu gan yrwyr ifanc (17-24 oed) sy'n gyrru wrth eu gwaith.



Mae 'Young Drivers at Work' hefyd yn ymchwilio i adnoddau pellach o ran addysg neu hyfforddiant a allai helpu cyflogwyr i sicrhau bod eu gyrwyr ifanc yn ddiogel, ac mae'n nodi prif themâu sylwadau'r ymatebwyr.

- **Adroddiad RoSPA Young Drivers at Work** (728kb)

Siop RoSPA ar y We

Ydy – bron degawd ar ôl dyfodiad e-fasnachu, mae RoSPA o'r diwedd wedi mentro i fyd y we.

Bellach, gall cwsmeriaid RoSPA ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd i brynu pob un o'r 400+ o gynhyrchion RoSPA ar-lein yn ddiogel. Ar ben hynny, caiff aelodau RoSPA ddefnyddio cod taleb arbennig i gael disgownt o 15% yn awtomatig.

Dewch i weld: www.rospashop.com

Seddau Ceir sy'n Wynebu tuag yn ôl sydd Fwyaf Diogel i Blant dan 4 oed

Cyngor meddygon mewn papur a gyhoeddwyd ar bmj.com yw y dylai rhieni gadw plant ifanc mewn seddau sy'n wynebu tuag yn ôl, a hynny am gymaint o amser â phosibl.

Er mai'r arfer cyffredin yw newid babanod i seddau sy'n wynebu tuag ymlaen mewn ceir pan fyddant yn pwyso 9kg (rhyw 8 mis oed), mae mwy a mwy o dystiolaeth, yn ôl Dr Elizabeth Watson a Dr Michael Monteiro, ei bod hi'n fwy diogel i blant ifanc deithio ar seddau sy'n wynebu tuag yn ôl tan iddynt fod yn 4 oed.

Mae profion diweddar ar wrthdrawiadau hefyd wedi dangos bod teithio ar seddau sy'n wynebu tuag yn ôl wedi arwain at lai o anafiadau i'r gwddf a'r frest o'u cymharu â seddau sy'n wynebu tuag ymlaen. Cyngor taer awduron astudiaeth arall a efelychai ddamweiniau oedd y dylai gweithgynhyrchwyr ddatblygu seddau sy'n wynebu tuag yn ôl i blant hyd at 4 oed.

Yn wahanol i seddau sy'n wynebu tuag ymlaen, meddai'r awduron, bydd seddau sy'n wynebu tuag yn ôl yn cadw'r pen, y gwddf a'r meingefn ar hyd un llinell fel bod y grymoedd mewn damwain yn cael eu gwasgaru dros yr holl rannau hynny o'r corff.

Credant mai rhan o'r broblem yw y gall llawer o rieni a darparwyr gofal iechyd beidio â sylweddoli ei bod hi'n fwy diogel gadael plant mewn seddau sy'n wynebu tuag yn ôl am gymaint o amser â phosibl, neu fod seddau sy'n wynebu tuag yn ôl i blant mân yn bod. Yn ôl yr awduron, dylai gweithwyr proffesiynol gofal iechyd gynghori bod seddau sy'n wynebu tuag yn ôl yn fwy diogel na seddau sy'n wynebu tuag ymlaen i blant dan 4 oed.

Galwant hefyd ar weithgynhyrchwyr a manwerthwyr i gynyddu argaeledd seddau sy'n wynebu tuag yn ôl i blant hŷn ac am newid y labelu presennol ar ystodau pwysau seddau Ewropeaidd – labeli a all awgrymu bod seddau sy'n wynebu tuag ymlaen yr un mor ddiogel â seddau sy'n wynebu tuag yn ôl i blant sy'n pwyso dros 9kg.

Meddai Steve Baker, Pennaeth RoSPA Wales: "Rydyn ni'n cefnogi'r alwad am i seddau sy'n wynebu tuag yn ôl i blant mân fod ar gael yn ehangach fel ffordd o gynyddu'r dewis i rieni ynghylch diogelwch eu plant. Yn ôl y dystiolaeth, mae'n fwy diogel i blant deithio gan wynebu tuag yn ôl am gymaint o amser â phosibl, ond dyw hynny ddim yn golygu bod seddau sy'n wynebu tuag ymlaen yn 'beryglus'.

"Os oes gan rieni blentyn sy'n eistedd ar sedd 0+ sy'n wynebu tuag yn ôl, ac os ydyn nhw'n ystyried beth y dylen nhw ei wneud nesaf, ein cyngor ni yw cadw'r plentyn yn y sedd honno tan iddo neu iddi gyrraedd pen ucha'r ystod bwysau (13kg) onid yw'n rhy dal i'r sedd (mater i'w wneud â safle'r pen yw hwn - gwiriwch ganllawiau'r gweithgynhyrchwyr). Os nad yw'n rhy dal ac os gall ddal i ddefnyddio'i sedd bresennol am dipyn eto, peidiwch â chael eich temtio i symud eich plentyn i sedd sy'n wynebu tuag ymlaen cyn gynted ag y bydd yn cyrraedd isafswm y pwysau yn yr ystod bwysau sydd wedi'i nodi ar y sedd nesaf i fyny.

"Yn ddelfrydol, gallai rhieni sy'n ystyried defnyddio sedd sy'n wynebu tuag yn ôl i blant mân roi cynnig ar wneud hynny yn eu ceir, cyn ei phrynu, i sicrhau ei bod hi'n ffitio'n gadarn ac yn ddiogel. Dyna pam y mae'n bwysig i seddau sy'n wynebu tuag yn ôl fod ar gael yn ehangach mewn mannau gwerthu ym Mhrydain ac i rieni allu cael arweiniad arbenigol ynghylch gosod y sedd yn hytrach na mynd ar y we i archebu sedd a allai fod yn anaddas. Mae angen i fanwerthwyr hefyd gael hyfforddiant priodol iddyn nhw allu helpu rhieni

"Mae angen mawr, hefyd, i rieni sicrhau bod seddau plant o unrhyw fath mewn car wedi'u gosod yn gywir pryd bynnag y caiff plant eu rhoi mewn car neu eu tynnu allan. Mae arolygon wedi dangos bod llawer o seddau plant wedi'u camosod ac mae hynny'n golygu na fyddan nhw'n rhoi'r holl ddiogelwch y gallan nhw ei roi."

Cewch ragor o wybodaeth am seddau plant mewn ceir yn **www.childcarseats.org.uk**

Adroddiad Arbennig y Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth

www.parliament.uk

Mae'r Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth wedi cyhoeddi, fel adroddiad arbennig, ymateb llawn y Llywodraeth i'w adroddiad yn 2008 'Ending the Scandal of Complacency: Road Safety beyond 2010'. Mae i sawl un o argymhellion allweddol yr adroddiad le amlwg yng nghynigion y Llywodraeth yn ei hymgynghoriad ar ei strategaeth newydd ar ddiogelwch ar y ffyrdd (A Safer Way: Consultation on making Britain's roads the safest in the world).

Dywed Cadeirydd y Pwyllgor, Louise Ellman, fod "3,000 o bobl ym marw ar ein ffyrdd ni bob blwyddyn, gan gynnwys llawer gormod o bobl ifanc. Mae'n dda gweld y Llywodraeth yn cydnabod 'costau cymdeithasol ac economaidd enfawr' yr her fawr hon i iechyd y cyhoedd."

"Mae'r Llywodraeth yn bwriadu adfer safle Prydain fel arweinydd y byd ym maes diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r Pwyllgor wedi'i gwneud yn glir bod rhaid i hynny gymryd yr amcanion iechyd a'r amcanion economaidd ac amgylcheddol i ystyriaeth yn llawn a bod llwyddiant yn dibynnu ar i ba raddau y daw diogelwch ar y ffyrdd yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth gyfan ac nid yn nod i'r Adran Drafnidiaeth yn unig. Bydd angen arweiniad clir ac ymglymiad cydlynol y Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd, BERR a Swyddfa'r Cabinet i sicrhau y caiff camau effeithiol eu cymryd."

Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor, mae'r Llywodraeth wedi addo rhoi mwy o flaenoriaeth i ddiogelwch plant a phobl ifanc mewn ardaloedd difreintiedig yn ogystal ag i feicwyr modur. Yn yr un modd, mae'r Llywodraeth wedi derbyn awgrym y Pwyllgor y dylai hi symud at ymagwedd 'systemau' at ddiogelwch ar y ffyrdd, sef cynllunio cerbydau, ffyrdd a rheoliadau traffig i safonau cyffredin er mwyn i gamgymeriadau anochel defnyddwyr y ffyrdd beidio ag arwain at farwolaethau. Bydd hynny'n golygu rhagor o derfynau 20mya mewn trefi a mwy o ddiogelwch ar ffyrdd cefn gwlad.

Dros y degawd diwethaf, mae nifer y marwolaethau wedi gostwng llawer llai na nifer yr anafiadau difrifol ac mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder ynghylch pa mor ddibynadwy yw'r ystadegau am ddamweiniau. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor i osod targed heriol newydd ar gyfer gostwng nifer y marwolaethau, a hwnnw'n darged sydd ar wahân i'r un ar gyfer anafiadau difrifol. Mae hi hefyd wedi derbyn bod angen rhagor o gyngor a chraffu annibynnol ac yn cynnig sefydlu panel arbenigol.

Nid yw'r Llywodraeth wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor ynghylch sawl mater, gan gynnwys:

- yr angen i yrwyr fod wedi cael o leiaf flwyddyn o brofiad cyn cael trwydded lawn;
- cyfyngiadau ar yrwyr newydd o ran cludo teithwyr yn eu harddegau wedi nos;
- yr achos o blaid gostwng y terfyn ar alcohol yng ngwaed gyrwyr newydd; a'r
- angen i bennu targedau o ran y ganran o blant mewn ysgolion cynradd sy'n cael hyfforddiant cerdded a seiclo.

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi mynegi pryder na fydd gwella'r hyfforddiant i yrwyr yn ddigon i atal trasiedi colli cynifer o fywydau ifanc.

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2009 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600

RoSPA
The Royal Society for the Prevention of Accidents